**$5**
**Ebrill**
**2011**

# Llais Yr Andes

## Papur Cymraeg Trevelin ac Esquel

***Dyddiadau i'r Dyddiadur***

*03/052011 a 06/05/2011 - Creu printiau gyda Rincon del Arte (plant 9-11 oed)*

*13/05/2011 - Noson Gyrri Trevelin*



*20/05/2011 - Noson Sieiniaidd Clwb Gwawr.*


忠

*21/05/2011 - Eisteddfod Ddwl Esquel.*





Mae yno lawer o bethau diddorol yn y rhifyn diweddaraf o Lais Yr Andes. Yn y rhifyn hwn mae cyfle i weld ambell beth sydd wedi digwydd yng Nghwm Hyfryd, dod i adnabod ambell berson yn well, rhywbeth i'r plant, rysáit, tips i'r tŷ, croesair a sudoku i'r oedolion a chystadleuaeth.


Iwan Madog



## Y Ddraig!

Prin oedd modd gweld y ddraig o flaen y Ganolfan Hamdden yn Nhrevelin. Roedd y briciau wedi cael ei gosod yn siâp y ddraig ond roedd rhaid edrych yn ofalus iawn i'w weld.

Un bore fe aeth criw at ei gilydd er mwyn ei beintio'n goch unwaith eto. Roeddynt wedi eu harfogi hefo brysiai, rholeri a llawer iawn o baent. Roedd rhaid bod yn wyliadwrus peintio'r briciau cywir a chael yr amlinelliad cywir, achos yn lygaid yr haul roedd y briciau yn edrych yn debyg iawn. Ar ôl un cot o baent roedd y ddraig yn edrych yn well yn barod, ond nid oedd y gwaith wedi gorffen. Roedd rhaid rhoi cot arall i wneud yn siŵr y bydd y lliw yn aros, a ddim yn gwisgo gyda'r tywydd a threigl amser.

Roedd y ddraig yn barod mewn pryd ar gyfer lansiad ralio a oedd yn cael ei gynnal y penwythnos ganlynol.

Y dyddiau yma wrth redeg o'r car i mewn i'r pwll nofio neu i gael gwers karate, mae'r ddraig i'w gweld yn sefyll yn gadarn yn amddiffyn yr mynediad i'r Ganolfan.



Diolch i bawb wnaeth helpu a'r Gymdeithas Gymraeg am brynu'r paent.



## Gweithdy Dawnsio Celtaidd

Mae dawnsio yn ran annatod o ddiwylliant. Ac un prynhawn Sadwrn braf yn mis Ebrill cawsom flas ar rai o ddiwylliannau Celtaidd eraill.

Merch o'r enw Camilia Mery o Lago Puelo (yn wreiddiol o Santiago Chile) oedd yn cynnal y gweithdy. Athrawes Ddawns, sydd wedi bod yn dysgu dawnsio Celtaidd yn Lago Puelo. Fe wnaeth hi ddysgu sawl dawns Gwyddeleg ac ambell ddawns



Albanaidd i ni.

Roedd rhai o'r dawnsfeydd yn gymhleth, ac roedd rhaid cerdded yn ôl a gwneud bob math o camau. Serch hynny roeddem yn mwynhau, ac roedd yno lawer o chwerthin yn arbennig pan oeddem yn mynd i mewn i'n gilydd, ac yn disgyn.

Roedd bob dim wedi cael ei drefnu gan Margarita Green. Diolch yn fawr am brynhawn llawn hwyl

# Pwy ydi Iwan?


Dwi wedi bod yma ers dros fis bellach, yn mwynhau fy hun yn Esquel a Threvelin. Dwi'n nabod y rhan fwyaf ohonoch bellach, a dwi'n siŵr eich bod wedi dod i nabod rhywfaint arnaf i hefyd. Ond dyma fy hanes i cyd dod yma.

Dwi'n 24 mlwydd oed, ac yn byw mewn ardal o'r enw Golan ger Porthmadog. Ardal wledig ydi, gyda sawl fferm. Fe wnes i astudio Cymraeg a Drama yn y brifysgol yn Aberystwyth. Pan oeddwn yn astudio cefais gyfle i fynd i weithio mewn Maes Gwersylla a Charafanau yn Llydaw yn ymyl Dol de Bretagne, ac mewn gwersyll haf i blant yn yr UDA yn Connecticut.

Ar ôl graddio cefais gyfle i gyflawni un o fy uchelgeisiau sef trafeilio o gwmpas y byd am flwyddyn. Fe es i i Ghana yn Affrica i wirfoddoli gyda Sankofa Center for African Dance and Culture, yn teithio o gwmpas ysgolion a phentrefi yn codi ymwybyddiaeth am HIV/AIDS. Profiad unigryw, anodd ar adegau yn enwedig pryd oedd rhywun yn darganfod ei bod nhw dioddef o'r clefyd, ond roedd yn gwneud i mi sylweddoli pam mor lwcus ydym ni yng Nghymru. Yna fe es i China lle'r oeddwn yn dysgu Saesneg mewn dinas 'fach' o bron i filiwn o bobl. Roedd yno bob math o fwyd yno, ac roedd y bobl leol yn cael hwyl wrth weld diferion yn llifo o fy llygaid wrth i mi geisio bwyta'r bwyd sbeisi. Fues i'n ymweld â Beijing, y Wal Fawr, Xi'an a´r Rhyfelwyr Tericota, Hong Kong, a Shanghai. Yna bues yn gweithio yn Sydney mewn bar, a theithiais ar hyn arfordir Awstralia a gweld ambell gangarŵ, arth cowala, a nofio yn y Great Barrier Reef lle welais Nemo ac ambell siarc. Teithiais o gwmpas Seland Newydd. Gwlad anhygoel gyda llawer o dirwedd gwahanol, ac roeddwn yn mwynhau gweld ychydig ar y diwylliant Maori. Cefais gyfle i ymlacio yn Fiji wrth orwedd mewn hamoc, ar y traeth a darllen llyfrau, cyn ymweld â´r wlad olaf sef yr Unol Daleithiau America.

Dwi wedi bod yn lwcus iawn yn cael yr holl brofiadau, ond dwi'n edrych ymlaen er mwyn parhau i weithio yma, a chreu rhagor o atgofion melys.





Menter PATAGONIA
Ffôn: 02945 (15) 564726

# Helo Bach



Wel dyma fi'n eistedd yn yr ardd gefn ar ddiwrnod rhyfeddol o gynnes yn ysgrifennu pwt bach o newyddion i 'Lais yr Andes'. Mae'r tywydd yn argoeli'n dda am ben-wythnos y Pasg ac rwy'n gwerthfawrogi pob eiliad o haul ar ol cael sawl gaeaf y llynedd!

Rydw i wedi bod adre ers pedwar mis bellach - 'el tiempo esta volando'! Ar ol cwpwl o wythnosau o ymlacio ac ymweld a theulu/ffrindiau, fues i'n ddigon ffodus i gael swydd dros dro mewn ysgol uwchradd Gymraeg yn Llanelli. Athrawes Ffrangeg a Sbaeneg ydw i yno ac felly caf gyfle i siarad Sbaeneg yn ddyddiol!

Un o fanteision bod yn athrawes yw'r gwyliau, ac yr wyf i wedi manteisio'n llwyr ar y gwyliau hyn eleni. Bum yn Madrid a Salamanca yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror ac yr wyf i newydd ddychwelyd o India, lle wnes i ymweld ag Agra, Jaipur, Varanasi, Parc Cenedlaethol Ranthambore a Delhi. Roedd yn brofiad anhygoel ac roedd gweld teigr yn y gwyllt, y Taj Mahal ac afon y Ganges yn uchafbwyntiau i fi. Serch hynny, roedd cael llygoden ar fy ngwely yn ystod un o'r teithiau ar y tren nos a'r 'Delhi Belly' a ddioddefais un diwrnod yn brofiadau nad oeddynt mor bleserus!

Mae gen i atgofion melys iawn o 'nghyfnod yn yr Andes ac rwy'n aml yn meddwl am y lle. Mae plant yr ysgol wrth eu boddau yn clywed yr hanesion ac maent yn meddwl ei fod yn 'cwl' iawn fod Miss Evans wedi bod yn byw yn yr Ariannin. Mi fyddaf yn dychwelyd, mae hynny'n sicr!
Cofion cynnes iawn a chadwch mewn cysylltiad.

Shwmae!
Dim ond neges fach o Gaerdydd i ddweud diolch yn fawr iawn i bawb am y croeso cynnes iawn ges i tra roeddwn i yn Esquel a Threvelin. Roedd y croeso anferth ges i gan Liliana, Diana ac Alwen ac Aldo yn anhygoel ac roedd hi mor hyfryd teimlo mor gartrefol gyda phawb.



Ces i amser anhygoel yn ystod fy wyth wythnos ym Mhatagonia. Ers dod adref mae llawer iawn o bobl wedi gofyn i fi am fy mhrofiadau a dwi'n dweud wrth bawb taw Esquel a Threvelin yw'r llefydd gorau ym Mhatagonia!! Dwi methu aros i ddod nôl rhywbryd. Dwi'n gweithio mewn cylch meithrin nawr felly dwi wedi dechrau cynilo arian er mwyn dod nol rhyw ddiwrnod cyn rhy hir.

Hasta luego,
llid x

# Holi Hwn a Holi Llall

**Enw:** Nel Owen

**Oed:** 90

**Lle cawsoch eich geni?**
Dwi'n meddwl mai yn Esquel. Yn Nant y Pysgod oedd Mam a Dad yn byw adeg hynny.

**Lle/Sut wnaethoch ddysgu Cymraeg?**
Ar yr aelwyd. Dim ond Cymraeg o'n i'n siarad. Fues i ddim yn yr ysgol Gymraeg. Wastad yn mynd i'r Ysgol Sul. Ysgol Sul yn y bore a Phregeth yn y pnawn, a'r ysgol gân gyda'r nos dan arweiniad Bobi Williams. Ac i'r ysgol ddyddiol yn Sbaeneg.

**Beth ydych yn hoffi ei wneud?**
Darllen a 'sgwennu siŵr.

**Beth ydych hoff atgof o pan oeddech yn blentyn?**
...O'n i'n ffond iawn o ganu. Arferiad gyda'n nhad i oedd hel pobl i ganu yn y tŷ. Canu bob amser. Doedd 'na ddim radio na theledu i'w gael dyddia' hynny. Ac ro'n i'n licio mynd i'r Band of Hope pan o'n i'n ifanc.

**Os nad oeddech yn byw yn y Cwm - lle hoffech fyw?**
Yn y dyffryn. Mae'r teulu ynghyfr'ath i gyd yn byw yn y dyffryn, a theulu mam. Mae gen i lawer o berthnasa' yna.

**Beth ydych hoff rif?**
Saith, diwrnod fy mhen-blwydd.

**Beth yw eich hoff gân?**
Mae gyda fi gymaint o donau yn fy mhen. Ond os byswn i'n gorfod dewis, dwi'n meddwl mai Llef. Dwi 'di ei chanu lawr.

**Beth ydych chi ddim yn hoffi?**
Sŵn. Dwi'n licio tawelwch.


# Noson Lawen

Ar gychwyn mis Ebrill cawsom y pleser o gael cwmni Tour de Force, yn ogystal â thalentau lleol. Grŵp o dri actor ydynt – Llinos Daniel, Adrian Metcalfe a Sonia Beck, o Abertawe. Maent wedi bod ar daith yma yn Ne America ac wedi perfformio yn Montevideo Uruguay, Buenos Aires ac yma yn Esquel. Cawsom awrywiaeth o alewon gwerin, caneuon a darnau o 'Dan y Wenallt' a darnau o 'Portrait of an Artist as a young dog'.



Roedd ambell wyneb cyfarwydd yn perfformio hefyd. Canodd Vincent Evans ei accordion, adroddodd Alwen Green ychydig o farddoniaeth, gwelsom rai o luniau Arturo i gyfeiliant ei gerddoriaeth, canodd Fresia Silva ambell gân a chwaraeodd Alejandro Jones ei gitar a chanu mewn Cymraeg a Sbaeneg. Diolch yn fawr iddynt i gyd.

Ar y diwedd roedd digon o empanadas, pitsa, a chacennau a chyfle i siarad gyda ambell wydriad o win. Noson hwyliog a gwledd i'r llygaid, glust ac i'r emosiynau




Dyma gyfle i gael blas ar un o’r llyfrau o lyfrgell yr ysgol yn Esquel. Mae nifer o lyfrau yn y llyfgell yn Esquel ac yn Nhrevelin i bob lefel - felly dewch i ddarllen!

Lefel : Uwch

Llafnau - Geraint Evans

Mewn cyfarfod tanbaid ynglyn a datblygiad melinau gwynt yn neuadd bentre Esgair-goch, cafodd Martin Thomas, y Cnwc, newyddion da. Byddai Fferm Wynt Hyddgen yn cael ei hadeiladu ar dir mynyddig ei fferm. Ond ynghanol ffrae sy'n hollti cymuned mae buddugoliaeth Martin Thomas yn gyflym troi'n ddim, wrth iddo gael ei lofruddio ar ei ffordd adref o'r cyfarfod
Mae'r plot yn byrlymu gan ddigwyddiadau sy'n portreadu cymdeithas gyfoes cefn gwlad Ceredigion, gan gyrraedd uchafbwynt trist ac annisgwyl.
Llafnau - Geraint Evans

Wrth iddo gerdded i mewn i neuadd bentref Esgairgoch, doedd gan Martin Thomas ddim syniad mai hon fyddai noson olaf ei fywyd.

Ymlwybrodd tuag at rhes flaen lle’r oedd sedd wedi’i chadw iddo. Roedd y neuadd yn orlawn, a’r gymuned wedi dod ynghyd i bleidleisio ar ddatblygiad Fferm Wynt Hyddgen a oedd i’w hadeiladu ar fynydd0dir uwchben y pentref. Gallai glywed rhai’n gweiddi, “sticia ati, Martin”, ac eraill yn grwgnach, “Bydd y diawl yn gneud ei ffortiwn os cawn ni’r blydi tyrbeins ‘na.” Er iddo geisio anwybyddu’r lleisiau, roedd Martin Thomas yn ymwybodol fod rheswm da dros eu grwgnach, fferm fechan oedd y Cnwc ac er ei fod yn gweithio fel slaf roedd y bwlch rhwng incwm a chostau’nymledu o fis i fis, a’i fanc yn archwilio’i orddrafft yn gyson. Bwriedid codi rhan helaeth o felinau Hyddgen ar dir Cnwc a byddai penderfyniad o blaid y cynllun yn trawsnewid ei sefyllfa ariannol yn ddi0os. Gyda rhent o dair mil o bunnoedd y flwyddyn am bob twrbein byddai Martin Thomas yn ddyn cyfoethog……

….”Gyfeillion, dyma ganlyniad y bleidlais ar ddatblygiad Fferm Wynt Hyddgen uwchben Esgair-goch:

Cyfanswm y pleidleisiau/ total votes cast - 622

Papurau pleidleisio a ddifethwyd/spoilt voting papers - 12

Dros y datblygiad/ in favor of the development - 316

Yn erbyn y datblygiad/ against the development - 294-”

Ar hyn, cafwyd pandemoniwm gyda bloeddiadau o “Fix!” a “Cheat!” a sawl cis am ailgyfri. Prin y clywodd neb Parry’n datgan bod y gymuned felly wedi pleidleisio o blaid y datblygiad gyda mwyafrif o 22, ac ofer oedd ei ymgais i alw am drefn. Yn ddwy garfan, symudodd pawb i gyfeiriad y drysau - rhai’n teimlo iddynt gael eu twyllo, a’r gweddill yn edrych yn ddigon hapus gada’r canlyniad. Yr hapusaf o bawb, yn sicr, oedd Martin Thomas; cododd o’i sedd gyda golwg o ryddhad pur ar ei wyneb ac wrth iddo yntau gerdded at y drws roedd rhai’n ei longyfarch yn gynnes ac eraill yn dweud dim.

Doedd Martin yn hidio dim am yr wynebau dig; roedd ei fferm wynt bellach yn ffaith ac roedd hynny’n ddigon. Camodd yn hyderus at gefn yr adeilad ond yno, yn sefyll ar draws ei lwybr, roedd Seth Lloyd yn aros amdano.

“Meddwl bo ti wedi ennil, wyt ti? Paid â thwyllo dy hunan. Fe wna i bopeth posib i rwystro dy gynllunie cythrel di. Ro’n i’n ffarmo Pen Cerrig cyn bo ti mas o dy glytie, gwd boi, a sai’n mynd i ga’l y mastie ‘na’n ffinio ar ‘y nhir i! Ti’n clywed Martin Thomas?! Well i ti watsho pob cam o hyn allan - ti a dy deulu. Y b****d twyllodrus fel yr wyt ti!”

“Ydi hynna’n fygythiad?” atebodd Martin. “Well i chithe hefyd fod yn ofalus - ma sawl un wedi clywed beth ddwedoch chi.”

“Wrth gwrs ei fod e’n ff***n bygythiad, y c**t.” Poerai Seth Lloyd y geiriau a chamodd tuag at Martin gan sefyll drosto’n heriol. Edrychai fel petai ffeit ar fin torri...

Dyma rysáit gan Gladys Jones. Pryd hawdd a blasus i'w wneud ar gyfer yr Hydref.



## Pasta â saws gwyrdd

Cynhwysion
3 swcini neu zapallitos gwyrdd
1 winwnsyn
Pinsied o halen
2 llwy bwdin o olew olewydd
Ychydig o bersli
250g o hufen hylif
Ravioli neu spagetti

Dull
1. Rhowch sosban o ddŵr ar y tân i ferwi.
2. Torrwch y winwnsyn a'r swcinis yn fân a chadwch nhw ar wahân.
3. Rhowch olew mewn padell ffrio a ffriwch y winwnsyn nes ei fod yn feddal.
4. Ychwanegwch y swcinis'r halen a choginiwch nes ei fod yn feddal. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei droi bob hyn a hyn rhag ofn iddo losgi.
5. Pan fydd y dŵr wedi berwi, rhowch halen bras a dropyn o olew mewn cyn ychwanegu'r pasta.
6. Pan fydd y pasta yn barod, ychwanegwch yr hufen at y swcinis, a chynheswch y cymysgedd am ychydig (peidiwch â gadael i'r hufen ferwi) a rhowch y persli arno.
7. Hidlwch y rafioli a'i roi mewn dysgl ddofn a thywalltwch y saws gwyrdd drosto.
8. Taenwch ddigon o gaws wedi'i gratio arno.

Ac yn olaf - mwynhewch y pryd gyda'r teulu neu ffrindiau.

## Tips yn y Tŷ

- Peidiwch â thaflu brws dannedd hen, gallwch ei ddefnyddio er mwyn glanhau o amgylch a thu ôl i dapiau'r bach.
- I gael gwared â phla du fewn y tegell defnyddir hanner cwpan o finegr gydag wyth a hanner cwpan o ddŵr, ei ferwi a'i gadael dros nos.
- I ddadsgriwio potel neu jar curwch yn erbyn y llaw tair gwaith er mwyn rhwyddhau'r gwasgedd.
- I ddileu arogl winwnsyn o'ch dwylo, rwbiwch mewn ychydig o fwstard.
- Rhowch hanner taten yn eich bin bara er mwyn cadw eich bara yn ffres.
- I ddileu crafiadau mân oddi dodrefn rwbiwch gyda chneuen Brasil neu Ffrengig (Nuez)
- I atal drych yr ystafell ymolchi rhag stemio, rhowch ychydig o siampŵ ar glwtyn, rwbiwch y drych yna ei lanhau gyda chlwtyn glan.
- Er mwyn rhoi stop ar igian, sipiwch ar lond llwy de o siwgr - mae'n gweithio, wir yr!

# Cornel Plant

## Chwilair Rhannau'r Corff

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| g | w | a | ll | t | s | c | a | i | ll |
| i | e | r | s | u | f | e | t | y | m |
| dd | n | u | w | l | t | y | r | c | w |
| s | l | t | c | th | g | r | w | b | a |
| c | d | r | i | e | b | th | y | e | ll |
| b | a | o | u | ll | g | i | n | n | w |
| u | p | e | n | i | h | t | i | y | h |
| w | n | d | o | c | o | l | y | w | d |
| ph | e | ch | m | ng | rh | n | a | g | ff |
| a | p | u | n | c | o | e | s | b | y |

Gwallt
Ceg
Trwyn
Pen
Coes
Clust
Llaw
Dwylo
Troed
Wyneb

## Lliwiwch Dora a Bwts


Gwallt : Du
Mwnci : Coch
Ceg : Porffor
Llygaid : Glas



## Cwrdd â rhai o'r plant

Enw: Maximiliano dwi.
Oed: 8 oed
Ble wyt ti'n byw?: Dwi'n byw yn Esquel
Beth wyt ti'n hoffi?: Dwi'n hoffi pêl droed, a dwi'n hoffi chwarae ar y cyfrifiadur
Beth wyt ti yn hoffi bwyta?: Dwi'n hoffi bwyta pitsa, cyw-iâr, afal, cacen a banana.

Enw: Iriel Jones dw i.
Oed: Dwi'n 11oed.
Ble wyt ti'n byw?: Dwi'n byw yn Nhrevelin.
Beth wyt ti'n hoffi gwneud?: Dwi'n hoffi nofio a marchogaeth.
Bwyd: Dwi'n hoffi bwyta sglodion ac asado.
Yfed: Dwi'n hoffi yfed sudd afal a coca cola.
Lliw: Dwi'n hoffi du.



## Priodas

Cafwyd priodas Benjamín Grandis a María de Oro Jones yng Nghapel Bethel Trefelin ar Dydd Sadwrn 19 o Fawrth, roedd y capel llawn o flodau a phobl.


María de Oro sy'n gweithio fel athrawes cerddoriaeth yn Ysgol "Puerta del Sol" ydy merch i Marilyn Jones a Jorge de Oro. A Benjamín Grandis sy'n gweithio fel "Cabo de la Fuerza Aérea" ydy mab i Liliana de Celis a Pini Grandis. Daeth gweinidog o Górdoba i 'wneud y seremoni, y Dr. Luis Pérez Seggiaro sydd yn nai i'r diweddar Dr. Edgar Winter ac ewyrth i Benjamín Grandis.

Ar ôl y priodas yng Nghapel y Cwm aeth y teulu a'r ffrindiau i ddathlu yn neuadd "Rincones del Sur", roedd y bwyd yn fendigedig, ac daeth y Grwp Dawns Werin "Cwm Hyfryd" i ddangos ei perfformiadau efo pawb, roedd y dawns yn liwgar a phoblogaidd iawn.


Llongyfarchiadau i'r gŵr a gwraig!!

Isaías (Eseia) Grandis



# Croesair - Yr Anthem



I LAWR
1. Valiente
2. Viejo
3. En
4. Patriotas
5. Sus (ellos)
6. Durar
7. Perdiesen o Perdieran
8. Padres
9. Mae (cliw)
10. Serás
11. Sobre
12. Soy (ffurfiol)

AR DRAWS
1. Sangre
2. Famosos
3. Militares
4. Pleidiol (cliw)
5. Cantores
6. Poetas
7. Puro
8. Querido
9. País
10. Preferido
11. Libertad

Cofiwch bod, ch, dd, ff, ll,, rh, th yn un llythyren.

# Sudoku

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | | 4 | | 6 | | | 7 |
| | | | | | | 4 | | |
| | 1 | | | | | 6 | 5 | |
| 5 | | 9 | | 3 | | 7 | 8 | |
| | | | | 7 | | | | |
| | 4 | 8 | | 2 | | 1 | | 3 |
| | 5 | 2 | | | | | 9 | |
| | | 1 | | | | | | |
| 3 | | | 9 | | 2 | | | 5 |

Rhaid cael bob rhif rhwng 1 a 9 ym mhob llinell, ac ym mhob bocs.

# Cystadleuaeth

Atebwch y cwestiynau hyn, a dychwelwch yr atebion i Iwan Madog ar ddarn o bapur erbyn 31/05/2011, ac mae siawns i un ohonoch ennill gwobr arbennig!

1. Faint o hufen sydd ei angen i wneud Pasta Gwyrdd Gladys?
2. Beth sydd angen ei ddefnyddio i atal y drych yn yr ystafell ymolchi rhag stemio?
3. Lle mae Iwan yn byw yng Nghymru?
4. Beth yw hoff rif Nel Owen?

Mae'r holl atebion yn yn rhifyn yma